



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo amrywiaeth eang o swyddogaethau a chyfrifoldebau gan gynnwys; cynghorydd, rheoleiddiwr, dynodwr, ymatebydd, ymgynghorai statudol, casglwr tystiolaeth, rheolwr, gweithredwr, partner, addysgwr a hwylusydd ledled Cymru.

Mae cwrpas ein System Reoli Amgylcheddol yn cynnwys; "Yr holl weithgareddau a'r holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy."

Byddwn yn annog arferion amgylcheddol gorau drwy ein sefydliad ac yn adolygu ein gweithgareddau a'n gweithrediadau er mwyn dod o hyd i effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd. Yn benodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu System Reoli Amgylcheddol sy'n cydymffurfio â'r safon amgylcheddol ISO14001 ac sy'n helpu i warchod yr amgylchedd.
- Monitro a gwella'r System Reoli Amgylcheddol yn barhaus trwy gyfrwng archwilio mewnol a rhaglenni adolygu uwch reolwyr er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol y sefydliad.
- Cydymffurfio â'r holl gydymffurfiaeth berthnasol a'r rhwymedigaethau eraill er mwyn lleihau ein heffaith amgylcheddol.
- Cyflwyno dull adrodd agored a chliir a rhannu systemau perfformiad a rheoli amgylcheddol.
- Cyflwyno fframwaith ar gyfer pennu amcanion amgylcheddol ac er mwyn monitro ac adolygu cynnydd ar sail ein targedau er mwyn lleihau'r defnydd o ynni, dŵr ac adnoddau.
- Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gennym, lleihau'r defnydd o ddeunyddiau niweidiol ac atal llygredd yn sgil ein gweithgareddau.
- Hyrwyddo lefel uchel o ymwybyddiaeth amgylcheddol ac arferion gorau ymysg ein gweithwyr a'n rhanddeiliaid, gan integreiddio rheolaeth amgylcheddol â hyfforddiant â chyfathrebu.
- Caffael nwyddau a gwasanaethau o ffynonellau cynaliadwy ac annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i wella eu perfformiad amgylcheddol.
- Parhau i gydymffurfio â Safon Sicrhau Coetiroedd y DU i ddangos bod ecosystemau ein coedwigoedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.
- Lliniaru effaith newid hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ein gweithrediadau a'n gweithgareddau i gyd.

Byddwn yn cyhoeddi polisi hwn ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ei arddangos yn swyddfeydd a safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd ar gael i bawb sydd â diddordeb.

Dr Emyr Roberts,  
Prif Weithredwr – Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Ebrill 2016  
Dilys hyd at: 31 Mawrth 2018